# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2012.

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E.G.Davies ; W.I.Hughes; Eric Jones; R.Dylan Jones; Eric Roberts; P.S.Rogers; John Penri Williams; Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Adran 151 / Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (Mewn perthynas ag Eitem 3);<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) (Mewn perthynas ag Eitem 3);<br>Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen (GM) (Mewn perthynas ag Eitem 4);<br>Rheolydd Polisi a Strategaeth (CWO) (Mewn perthynas ag Eitemau 5 a 6);<br>Cyfrifydd Dros Dro (RV) (Mewn perthynas ag Eitem 3);<br>Rheolydd Sgriwtini (BS);<br>Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini (CT);<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr W.T.Hughes; Hefin Thomas;<br>Y Comisiynydd Mick Giannasi; |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr W.J. Chorlton, Kenneth P. Hughes, T.Ll. Hughes, H. Eifion Jones, G.O. Parry MBE.<br><br>Mr. Gareth Jones - Comisiynydd<br><br>Mr. Keith Roberts – Aelod Cyfetholedig |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog.

**2 COFNODION**

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2012 fel rhai cywir.

**3 CYLLIDEB 2012/13**

Cyflwynwyd i'w hystyried – dogfen a oedd yn sail ar gyfer ymgynghoriad y Cyngor gyda'r cyhoedd ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2012/13.

Cafwyd peth cefndir i'r broses ar gyfer gosod cyllideb 2012/13 gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro, gan gyfeirio'n benodol at yr adroddiadau perthnasol a gyflwynwyd eisoes i'r Bwrdd Comisiynwyr ym mis Tachwedd, mis Rhagfyr a mis Ionawr.

Adroddwyd bod y gyllideb ddigynnydd ddrafft wedi nodi bwlch cyllidebol o £3.31m.  Fodd bynnag, roedd hynny'n cynyddu i o gwmpas £3.6m unwaith yr oedd y rhwymedigaethau twf statudol a rheoleiddiol wedi eu cynnwys.  Gofynnwyd i bob Gwasanaeth yn yr Awdurdod ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd 5% er mwyn cyfrannu at gau'r bwlch yn y gyllideb.  Fel rhan o'r ymarfer hwn nodwyd bod cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd ailadroddus yn £4.5m.

Esboniwyd na ddylai'r ymarfer hwn ar gyfer gosod y gyllideb ond roi sylw i'r flwyddyn ariannol nesaf, gan fod disgwyl y gallwn fod yn wynebu hyd at 5 mlynedd o amgylchiadau ariannol anodd. Eglurwyd ymhellach y byddai'r Adran Gyllid, fel rhan o'r gwaith yn dilyn gosod cyllideb 2012-13, yn dadansoddi pob un o'r meysydd gwasanaeth yn fanylach ac yn gweithio gydag Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini i gynllunio hyn.

Ategwyd sylwadau'r Swyddog Adran 151 Dros Dro gan yr Aelod Portffolio Cysgodol.  Esboniodd bod rôl glir i'r Pwyllgorau Sgriwtini o ran monitro cynnydd a wneir gydag unrhyw arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn ystod y flwyddyn ariannol.  Er bod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn a balansau digonol, nododd bod y rheini wedi cael eu taro oherwydd arbedion effeithlonrwydd na chawsant eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a bod risgiau amlwg o ran defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r llyfrau oherwydd efallai y bydd angen yr arian yn y blynyddoedd i ddod.

Aeth y Deilydd Portffolio Cysgodol ymlaen i ddweud ei fod yn credu bod nifer o'r arbedion effeithlonrwydd a gynigiwyd yn rhai nad oes modd eu cyflawni a bod angen gwneud mwy o waith i'w datblygu ymhellach.

Daeth i ben trwy ddweud er bod yr Aelodau yn anghyffyrddus efallai gyda'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, mae angen amlwg i bontio'r bwlch cyllidebol fel gall yr Awdurdod barhau i ddarparu'r gwasanaethau statudol a buddsoddi i'r dyfodol.

Materion a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini:

- Gwnaed sylw cyffredinol bod gwir angen am strategaeth arbedion sy'n cael ei rhedeg yn iawn ac sy'n cael ei sgriwtineiddio'n briodol.  Nodwyd bod yn rhaid dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn .  Fodd bynnag, dro ar ôl tro, nid yw nifer o'r cynlluniau arbed hyn yn darparu'r arbedion gofynnol oherwydd bod angen parhau i ddarparu'r gwasanaethau i'r cyhoedd.
- Codwyd materion mewn perthynas â dibyniaeth gynyddol ar staff asiantaeth a'u costau i'r Awdurdod.  Roedd teimlad bod hwn yn faes lle byddai modd gwneud arbedion sylweddol, gan olygu na fyddai angen canfod arbedion effeithlonrwydd posib mewn mannau eraill.  Yn ogystal, roedd teimlad y dylid rhewi'r swyddi sydd yn wag ar hyn o bryd er mwyn darparu elfen o hyblygrwydd ar gyfer adleoli os bydd yr arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas â gostwng rhai o'r gwasanaethau yn digwydd, ac os bydd rhai o'r bidiau twf yn cael eu derbyn.  Roedd pryderon allweddol eraill yn cynnwys:
    - Costau recriwtio / cyflogi staff asiantaeth;
    - Posibilrwydd nad yw'r Awdurdod yn talu digon i ddenu swyddogion o'r safon iawn;
    - Arfarnu Swyddi.
- Roedd teimlad y dylid sgriwtineiddio'r gyllideb yn llawer mwy trylwyr, gan gychwyn gydag Adolygiad o'r Gyllideb Sail a allai gyfrannu tuag at gynorthwyo i ffurfioli'r ffordd yr ydym yn gofyn i wasanaethau am yr hyn y maent ei angen i sicrhau eu bod yn gallu darparu'r gwasanaethau gofynnol. Er bod y Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cytuno y gellid edrych ar Gyllidebau Sail, esboniodd nad oedd digon o gapasiti ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth Cyllid i ymgymryd â'r ymarfer hwn. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n ddefnydd llawer mwy buddiol o'r amser a'r adnoddau i gynnal asesiadau risg ar y meysydd hynny mae meincnodau yn awgrymu y byddai o gymorth eu sgriwtineiddio ymhellach.
- Roedd consensws bod llawer iawn o wastraff yn y Cyngor, nid yn lleiaf mewn perthynas ag anghenion yr awdurdod am ddeunydd a phapur ysgrifennu.  Yn hytrach na bod pob gwasanaeth yn gyfrifol am eu cyllidebau eu hunain ar gyfer deunydd a phapur ysgrifennu, dylai bod un uned yn gyfrifol am reoli materion sy'n ymwneud â deunydd a phapur ysgrifennu i'r

awdurdod. Roedd teimlad bod modd gwneud arbedion sylweddol yn y maes hwn, fel y digwyddodd yn Awdurdod Heddlu Essex. Ymhellach, roedd teimlad y byddai modd gwneud arbedion sylweddol trwy ymdrechion pwrcasu ar y cyd.

- Roedd teimlad mai'r her bwysicaf i'r Awdurdod oedd sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd â'n dyletswyddau statudol. Roedd yn bwysig cydnabod bod rhai dyletswyddau anstatudol y mae'r Awdurdod yn eu cynnig yn cael eu darparu gan gwmnïau preifat hefyd.
- Awgrymwyd, er mwyn gwneud yr arbedion gofynnol, fod angen canolbwyntio mwy ar weithio mewn partneriaeth a chydweithio.
- Roedd teimlad bod y sefyllfa ariannol anffafriol yr ydym ynddi ar hyn o bryd yn ganlyniad uniongyrchol i'r codiadau hanesyddol isel yn y Dreth Gyngor yn y gorffennol. O'r herwydd, er efallai nad oedd cynnydd o 5% yn dderbyniol yn wleidyddol, mae bron yn sicr y bydd angen y fath gynnydd fel bod modd i ni barhau i gwrdd â'n dyletswyddau statudol a darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i drigolion Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chaniatáu i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor adolygu'r wybodaeth a gafwyd gan y Pwyllgorau Sgriwtini eraill a pharatoi adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr, a fydd yn cynnwys argymhellion mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Cyllideb 2012-2013.**

**Yn ogystal, PENDERFYNWYD gofyn am Adolygiad o'r Gyllideb Sail a bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarae rôl allweddol mewn ymarfer o'r fath.**

## 4 FERSIWN DDRAFFT O'R CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd, i bwrpas ymgynghori, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) a'r Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen mewn perthynas â'r uchod.

Soniodd y Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen bod y canlyniadau allweddol yr oedd y Cyngor yn gweithio tuag atynt wedi cael eu datblygu i roi sylw i flaenoriaethau'r dinasyddion gan gymryd i ystyriaeth sylwadau cenedlaethol, lleol a gwleidyddol. Mae'r rheini fel a ganlyn:-

- Bod gan Ynys Môn economi wledig lewyrchus a ffyniannus;
- Bod pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu potential llawn;
- Bod pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel;
- Bod pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol er budd cenedlaethau'r dyfodol;
- Bod pobl yn Ynys Môn yn falch o'u Cyngor.

Aeth y Swyddog â'r Pwyllgor trwy'r prif faterion yn y Cynllun Busnes.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Posibilrwydd na fydd tai cymdeithasol ar gael i drigolion lleol yn sgil mewnlifiad gweithwyr adeiladu i Ynys Môn oherwydd codi gorsaf Wylfa B. Ymatebodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, y Cynghorydd W.J. Chorlton, fod y polisi gosod tai yn dweud bod rhaid i ymgeiswyr am dai cymdeithasol fod wedi bod yn byw ar yr Ynys am nifer o flynyddoedd. Nododd na fydd yr awdurdod â rheolaeth dros dai rhent preifat. Nododd y Cynghorydd Chorlton ymhellach fod cynllun i adeiladu hyd at 1,000 o dai ar yr Ynys yn cael sylw ar hyn o bryd.

- Codwyd cwestiynau ynghylch y gyfradd isel o dai Cyngor a oedd wedi ennill Safon Ansawdd Tai Cymru, sef 31%. Dywedodd y Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen y bydd angen darparu'r ffigyrau diweddaraf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon cyn i'r Cyngor ei fabwysiadu i'w weithredu i'r dyfodol.

- Awgrymodd yr Aelodau y dylid cysylltu gydag ysgolion lleol a'r Comisiynydd Plant mewn perthynas â dogfennau o'r fath a baratoir gan y Cyngor. Cyfeiriodd yr Aelodau at y cyfarfod 'Llais Ni' a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ar ddydd Llun. Mae 'Llais Ni' yn fforwm ar gyfer plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Roedd yr Aelodau yn dymuno cofnodi bod y cyflwyniadau a roddwyd gan y bobl ifanc yn eithriadol o dda. Cyfeiriwyd at y cyflwyniad gan Danial Evans o Ysgol Gyfun, Llangefni yn sôn am ei brofiadau yn ystod ymweliad i Gambodia. Roedd yr ymweliad yn rhan o'r rhaglen 'Newid Byd' ar S4C. Roedd yr Aelodau yn credu y dylid annog Danial i roi cyflwyniad tebyg i ysgolion ar yr Ynys.

- Nododd yr Is-Gadeirydd ei fod yn falch o weld bod y Cyngor yn gweithio tuag at sefyllfa lle byddai pobl Ynys Môn yn falch o'u Cyngor. O gofio'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd a'r canfyddiad hirsefydlog, mae angen gwneud llawer o waith ond mae'n galonogol gweld y canlyniad hwnnw'n cael ei nodi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5. ADOLYGU CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y CYNGOR

Cyflwynwyd am sylwadau - Y Cynllun Iaith diwygiedig a gyflwynir i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Chwefror 2012.

Dywedodd y Rheolydd Polisi a Strategaeth bod rhaid i'r Cyngor Sir, yn unol â gofynion statudol, ddiwygio ei Gynllun Iaith Gymraeg mewn cydweithrediad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae hwn yn gyfle i ddiweddaru'r Cynllun cyfredol yn hytrach na newid yr egwyddorion sylfaenol a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir yn ei Gynllun gwreiddiol yn ôl yn 1996. Hwn yw'r pedwerydd argraffiad ac ymgynghorwyd yn fewnol ar y Cynllun rhwng 21 Rhagfyr 2011 ac 18 Ionawr 2012.

Nododd y Swyddog ymhellach fod cynllun peilot ar gyfer Eiriolwyr Iaith wedi ei nodi yn yr adrannau i hwyluso rhoi sylw i anghenion ieithyddol yr adrannau. Bydd Gwefan y Cyngor, ynghyd a Facebook a Twitter hefyd o gymorth i hyrwyddo iaith yr awdurdod.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch argaeledd cwrs iaith Gymraeg i staff. Ymatebodd y Rheolydd Polisi a Strategaeth fod o gwmpas 40 o weithwyr yn mynd ar y cwrs ar hyn o bryd i wella eu sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg ac i ddysgu'r iaith.

- Gwnaed sylwadau bod mwy o rieni Cymraeg yn siarad Saesneg gyda'u plant. Roedd y Comisiynydd, Mr Gareth Jones am i'r iaith Gymraeg gael ei hyrwyddo yn yr ysgolion ac annog rhieni i siarad yr iaith gyda'u plant.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi y bydd y Bwrdd Comisiynwyr yn trafod y Cynllun Iaith Gymraeg ar 20 Chwefror ac y bydd yn cael ei gyflwyno wedyn i'w fabwysiadu'n llawn gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth 2012.**

## 6. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL DRAFFT Y CYNGOR AR GYFER 2012-2016

Cyflwynwyd er sylwadau – y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwr ar 20 Chwefror 2012.

Dywedodd y Rheolydd Polisi a Strategaeth fod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig, wrth gynnal eu gwaith, i ystyried yr angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da. Yn Ebrill 2010, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei bwerau i gyflwyno Dyletswyddau Penodol. Nodir y rhain yn Rheoliadau Cydraddoldeb 2011 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru). Cyflwynwyd y Rheoliadau hyn i gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol yn well. Mae'r

dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys rheidrwydd i ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol erbyn 2 Ebrill 2012.

Mae Swyddogion cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yr Awdurdod Parciau Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn rhannu arferion da am flynyddoedd lawer. Yn sgil cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, gweithiwyd ar y cyd i hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb ac i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag anghyfartaleddau ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Dywedodd yr Aelodau y dylai'r Iaith Gymraeg gael ei hymgorffori yn y Cynllun Cydraddoldeb. Dywedodd y Rheolydd Polisi a Strategol fod gan yr Awdurdod Bolisi Iaith Gymraeg a bod egwyddorion y polisi hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Cydraddoldeb dan 'Hil', sy'n cynnwys tarddiad neu genedligrwydd cenedlaethol.

- Soniodd yr Aelodau fod bwlio ar gynnydd yn yr ysgolion. Dywedodd yr Aelod Portffolio, y Cynghorydd K.P. Hughes fod Pwyllgorau Disgyblion wedi eu sefydlu mewn ysgolion a'u bod yn cynorthwyo plant sy'n cael eu bwlio i siarad gyda disgyblion eraill i rannu eu problemau yn hytrach na siarad gydag athrawon. Nododd y Comisiynydd, Mr Gareth Jones fod fforwm 'Llais Ni' a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor yr wythnos hon wedi trafod problemau bwlio. Nodwyd bod 60% o blant yn cael eu bwlio yn ystod eu hoes. Nododd Mr. Jones ymhellach fod bwlio yn digwydd ar draws ystod eang o weithgareddau e.e. mae peldroedwyr wedi cael eu targedu'n ddiweddar ar gyfer camdriniaeth hiliol. Dywedodd y dylai'r awdurdod ymgynghori'n llawn gyda'r holl sectorau i dargedu bwlio.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi y trafodir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Chwefror ac y bydd yn cael ei gyflwyno wedyn i'r Cyngor Sir llawn i'w fabwysiadu ar 6 Mawrth 2012.**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**